## Polisi Aflonyddwch Siambrau Angel

1. Pwrpas y polisi hwn yw egluro'r dull y mae Siambrau Angel yn ei ddefnyddio i droi at aflonyddwch yn yr amgylchedd gwaith. Mae Siambrau Angel yn ymroi i ddarparu amgylchedd gwaith lle caiff pob unigolyn, cleient a'r cyhoedd eu trin gydag urddas a pharch. Mae Siambrau Angel yn benderfynol o hyrwyddo amgylchedd gwaith lle caiff pawb eu trin yn gyfartal a chydag urddas a lle gallant ffynnu.

2. Ni fydd aflonyddwch ar unrhyw ffurf yn cael ei oddef yn Siambrau Angel. Mae aflonyddwch yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw ymddygiad annymunol yn gysylltiedig â rhyw, hil, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran. Gall y fath ymddygiad gymryd sawl ffurf gan gynnwys:

- ymddygiad nad yw'r derbynnydd yn ei ddymuno ac yr ystyrir ei fod yn elyniaethus neu'n fygythiol
- ymddygiad sy'n peri amgylchedd gwaith gelyniaethus neu fygythiol
- ymddygiad sy'n creu awyrgylch lle ofnir y bydd gwrthodiad neu gyflwyniad yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer penderfyniadau sy'n cael effaith ar y derbynnydd yn y gwaith fel dyrannu gwaith neu benderfyniad ar denantiaeth.

3. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o fathau o ymddygiad a allai arwain at aflonyddwch:

- ymosodiad corfforol neu rywiol
- gofynion am ffafrau rhywiol yn gyfnewid am ddatblygiad gyrfa
- cyswllt corfforol diangen
- eithrio o rwydweithiau a gweithgareddau cymdeithasol neu fathau eraill o ynysu
- bwlio neu fygwth
- awgrymiadau neu wahoddiadau sy'n cyfaddawdu
- sylwadau neu edrychiad awgrymog
- arddangos deunyddiau gwrthun gan gynnwys ar y sgrin gyfrifiadurol
- jôcs di-chwaeth neu gamdriniaeth ar ffurf geiriau gan gynnwys rhai a anfonwyd trwy e-bost neu neges destun
- sylwadau sarhaus neu wawdio
- delio'n amhriodol neu'n annigonol gyda chwynion aflonyddwch

4. Mae aflonyddwch yn anghyfreithlon dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal â'r ymddygiad annymunol uchod, gall godi pan fydd rhywun yn ymgymryd ag unrhyw fath o ymddygiad rhywiol annymunol (neu ailbennu rhywedd neu ymddygiad cysylltiedig â rhyw).

5. Gellir codi cwynion am aflonyddwch yn anffurfiol gydag Sara Lewis, Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Siambrau yn y lle cyntaf neu gyda'r Pennaeth Siambrau neu gyda Phenaethiaid priodol y Timau Trosedd, Sifil neu Deulu a fydd yn cytuno ymateb priodol. Dylid gwneud cwynion ffurfiol dan weithdrefn achwyn Siambrau Angel.

6. Mae aflonyddwch yn gamymddygiad o ran gweithwyr ac mae'n torri Cod Ymddygiad y Bar ar gyfer bargyfreithwyr. Ymdrinnir â honiadau o aflonyddwch dan weithdrefn ddisgyblu Siambrau Angel.

7. Mae Siambrau Angel yn ymroi i sicrhau nad oes neb sy'n gwneud honiad o aflonyddwch yn gyfrinachol yn destun unrhyw anfantais o ganlyniad i hynny. Bydd unrhyw erlid yn erbyn achwynydd, tyst neu unrhyw un arall sydd ynghlwm ag ymchwiliad i gŵyn yn cael ei ystyried fel mater disgyblu.

8. Mae copi o'r polisi hwn ar gael ar wefan Siambrau Angel a bydd yr holl bobl hynny y mae'r siambrau'n cyfansoddi amgylchedd gwaith iddynt, sy'n cynnwys aelodau'r siambrau, disgyblion, sgwatwyr, clercod a gweithwyr eraill, gweithwyr dros dro, y rhai sy'n darparu gwasanaethau i'r siambrau fel glanhawyr contract, cyfrifwyr ac ymgynghorwyr TG, mini-ddisgyblion a myfyrwyr ar brofiad gwaith yn cael gwybod ei fod ar gael ar ein gwefan.

9. Mabwysiadwyd y polisi hwn ar 1 Ionawr 2013 a bydd yn cael ei adolygu bob 2 flynedd.